# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 08.04.09

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Eryl Jones Williams, (Cadeirydd); Peter Read, Ieuan Roberts.

**Hefyd yn bresennol:** Sion Huws (Swyddog Priodoldeb), Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu) ac Ioan Hughes, (Swyddog Pwyllgor).

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol

## 2. CAIS I WYRO TRWYDDED EIDDO YR HARBOUR HOTEL, ABERSOCH.

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:**

**Cynrychiolwyr yr Heddlu:** Mr Ian Williams, Cydlynydd Trwyddedu yr Heddlu, Cwnstabl Andy Vowell.

**Ymgeisydd:** Mr. Gary Horseman, (Deilydd Trwydded yr Harbour Hotel) , Mr Michael Strain, (cyfreithiwr Mr gary Horseman), Mr. Tom Wittly, (cynrychiolydd cwmni Creation Media – cemni adloniant)

**Cynghorydd Lleol :** Y Cynghorydd R.H. Wyn Williams.

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoi manylion ar gais gan ddeilydd trwydded Yr Harbour Hotel, Abersoch i ganiatáu cerddoriaeth wedi ei recordio, dawnsio a chyflenwi alcohol hyd at 02:00awr o ddydd Iau - Sadwrn a 00:30awr ddydd Sul gyda'r eiddo ar agor am hanner awr wedi hynny.

Adroddwyd fod sylwadau wedi eu derbyn oddi wrth yr Heddlu yn datgan pryder o safbwynt amseroedd a'r gweithgareddau y cyfeiriwyd atynt yn y cais. Credai'r Heddlu y byddai'r newidiadau, pe byddent yn cael eu caniatáu, yn cael effaith andwyol ar drigolion lleol ac felly yn tanseilio amcan niwsans cyhoeddus.

Ni wnaed sylwadau gan yr Awdurdod Tân, ond yr oedd y Cyngor Cymuned a'r Cynghorydd lleol yn gwrthwynebu'r cais gwreiddiol. Derbyniwyd llythyrau pellach oddi wrth unigolion lleol yn gwrthwynebu'r cais yn ei ffurf wreiddiol.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

Cafodd yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd gyfle i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

Gwahoddwyd pob Ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig

Cafodd yr ymgeisydd gyfle i ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion.

Gwahoddwyd aelodau'r Is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd.

Cafodd cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd gyfle i grynhoi eu hachos.

Trafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a chan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef:

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus ac
- Amddiffyn Plant Rhag Niwed,

Yn dilyn trafodaethau gyda'r Heddlu, cadarnhawyd bod yr ymgeisydd wedi cytuno i ddiwygio'r cais fel a ganlyn:

- **Cerddoriaeth wedi ei recordio-**

Diddymu'r cais i ymestyn yr oriau Iau i Sadwrn
Diwygio'r cais ar gyfer dydd Sul hyd  at 0000 awr, yn hytrach na 0030awr, a nodwyd ar y cais gwreiddiol.

- **Gwerthu alcohol –**

Diwygio'r cais ar gyfer Iau i Sadwrn hyd 0100 awr, yn hytrach na 0200awr Diwygio'r cais ar gyfer dydd Sul hyd at 0000 awr, yn hytrach na 0030awr

- **Oriau ar agor i'r cyhoedd**

Diwygio'r cais ar gyfer Iau i Sadwrn hyd at 0130awr, yn hytrach na 0230awr
Diwygio'r cais ar gyfer dydd Sul hyd at 0030 awr, yn hytrach na 0100 awr.

Cadarnhawyd ymhellach fod cytundeb parthed dawnsio a pherfformiadau dawns gyda'r gweithgareddau'n cael eu caniatáu yn yr eiddo hyd 0100, dydd Iau - Sadwrn a 0000 ar ddydd Sul.

Adroddwyd gan yr heddlu mai dau ddigwyddiad a gofnodwyd parthed

yr eiddo yn ystod 2008 - 7 Awst, 2008, cwyn ynglŷn â sŵn yn yr eiddo, 13 Awst, 2008, cwyn ynglŷn ag yfed o dan oed. Yn ogystal, nodwyd y byddai'r eiddo yn cael agor am 10am yn ystod yr wythnos ac am 11am ar y Sul.

Galwodd yr Heddlu ar i amod, oedd yn gysylltiedig â'r drwydded gyfredol barhau sef bod mynediad i'r bar isaf o fewn yr eiddo yn cael ei gyfyngu i 2230awr.

Nododd yr heddwas lleol y byddai'r newidiadau a fyddai'n cael eu cyflwyno pe byddai'r cais diwygiedig yn cael ei dderbyn, yn annog cwsmeriaid i adael yr eiddo yn raddol yn hytrach na'u bod yn cerdded i'r pentref gyda'i gilydd. Ychwanegodd fod bwriad gan ddeilydd y drwydded i wneud defnydd lawn o'r man aros i dacsis ger yr eiddo, ac yr oedd yr heddwas yn gefnogol iawn i hyn.

Cyfeiriodd aelod o'r Is-bwyllgor at y gwyn o yfed dan oed, Cadarnhaodd yr Heddlu fod achos wedi ei gofnodi, ond ychwanegwyd bod pryniant prawf wedi ei gynnal yn ddiweddar ac na fu trafferth bryd hynny.

O safbwynt presenoldeb yr Heddlu yn y pentref cadarnhawyd fod dau heddwas ychwanegol yn gweithio yn yr ardal bellach a byddai oriau gwaith yr Heddlu ym mhentref Abersoch yn parhau hyd 3am.

Pwysleisiodd fod pobl yn byw yn agos i'r eiddo ac y dylid gweithio i sicrhau cydbwysedd gyda deilydd y drwydded a thrigolion lleol yn cael tegwch. 'Roedd y cynghorydd hefyd yn croesawu'r defnydd ychwanegol fyddai'n cael ei wneud o wasanaeth tacsis.

Cyfeiriodd cynrychiolydd deilydd y drwydded at brysurdeb yr eiddo a phwysleisiodd nad oedd dim treisgar ynglŷn â'r digwyddiadau a gofnodwyd gan yr Heddlu. Yn sgil hyn credai fod sefyllfa ymddygiad mewn cysylltiad â'r eiddo yn arbennig o dda.

Ychwanegodd fod pum goruchwiliwr drws yn cael eu cyflogi yn yr eiddo. Os oes amheuaeth o safbwynt oedran, rhaid i'r cwsmeriaid gyflwyno cerdyn adnabod i brofi eu bod dros 21 oed..

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd cynrychiolydd y cwmni adloniant fod system rheoli swn newydd wedi ei gosod yn yr adeilad.

Ar derfyn y drafodaeth diolchodd y Cadeirydd i bawb oedd yn gysylltiedig â'r ceisiadau am y modd yr oeddynt wedi cydweithio er sicrhau cyfaddawd derbyniol.

**PENDERFYNWYD bod y cais diwygiedig, fel y cymeradwywyd gan yr Heddlu yn cael ei ganiatau sef :**

- **i) Dim newid i'r drwydded bresennol ar gyfer cerddoriaeth wedi ei recordio o ddydd Iau hyd at ddydd Sadwrn**
- **ii) Caniatáu cerddoriaeth wedi ei recordio yn yr eiddo hyd at 0000awr ar ddydd Sul.**
- **iii) Caniatáu gwerthu alcohol hyd 0100 awr dydd Iau hyd at ddydd Sadwrn a hyd 0000 awr ar ddydd Sul.**
- **iv) Cadw'r eiddo ar agor i'r cyhoedd hyd 0130awr o ddydd Iau hyd at ddydd Sadwrn a hyd at 0030 awr ar ddydd Sul.**
- **v) Caniatáu dawnsio a pherfformiadau dawns hyd at 0100 dydd Iau hyd at ddydd Sadwrn a hyd at 0000 ar ddydd Sul.**
- **vi) Bod mynediad i'r bar isaf yn yr eiddo yn cael ei gyfyngu i 2230awr**
- **vii) Bod aelodau'r Is-bwyllgor yn annog deilydd y drwydded i weithredu fel bod llawn ddefnydd yn cael ei wneud o'r arosfan tacsis ger yr eiddo.**

**2. CAIS AM DRWYDDED EIDDO I'R ABERSOCH GARDEN CENTRE, TŶ MAWR, ABERSOCH.**

**<u>Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod</u>:**

**Cynrychiolwyr yr Heddlu:** Mr Ian Williams, Cydlynydd Trwyddedu yr Heddlu, Cwnstabl Andy Vowell.

**Ymgeiswyr:** David a Dianne Collins. Paul Collins, (mab yr ymgeiswyr)

**Gwrthwynebwyr:** Joyce Jones, Chris Smith, Graham D. Sedgley

**Cynghorydd Lleol :** Y Cynghorydd R.H. Wyn Williams.

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoi manylion ar gais oddi wrth Ganolfan Arddio Abersoch i werthu alcohol gyda bwyd rhwng 9:00 a 23:00.

Cyfeiriodd y swyddog at sylwadau ysgrifenedig y Gwasanaeth Tân yn nodi'r angen i sicrhau fod nifer y bobl yn eistedd wrth y byrddau o fewn yr adran drwyddedig yn cael ei gyfyngu i 20 a bod asesiad risg tân yn cael ei gynnal yn gyson. Derbyniwyd nifer o lythyrau'n gwrthwynebu'r cais ynghyd â llythyr oddi wrth y cynghorydd lleol oedd yn cefnogi'r cais. Nid oedd y Cyngor Cymuned yn gwrthwynebu'r cais, ond awgrymwyd ganddynt y gellid cyfyngu amser agor yr eiddo i 10pm.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. rhoddwyd cyfle i aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor;
ii. rhoddwyd cyfle i'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor;
iii. gwahoddwyd i bob ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig.
iv. gwahoddwyd aelodau'r is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd;
v. rhoddwyd cyfle i gynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd; a
vi. rhoddwyd cyfle i gynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd grynhoi'r achos.

Trafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a chan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef:

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus ac
- Amddiffyn Plant Rhag Niwed,

Adroddodd Cydlynydd yr Heddlu nad oedd tystiolaeth ynglŷn â'r eiddo gan mai cais newydd oedd hwn. Fodd bynnag, cyfeiriodd at honiad a wnaed mewn llythyr ynglŷn â digwyddiad yn yr eiddo'r llynedd. Cadarnhaodd nad oedd gan yr Heddlu unrhyw gofnod o ddigwyddiad. Nid oedd gan yr Heddlu wrthwynebiad i'r cais a fyddai'n sicrhau fod y drwydded i werthu alcohol yn atodol i'r prydau bwyd fyddai'n cael eu bwyta yn yr eiddo.

Ategwyd hyn gan y cynghorydd lleol a nodwyd ganddo fod y rhan helaethaf o'r gwrthwynebwyr yn byw tu allan i'r ardal ac mai am ran o'r flwyddyn yn unig maent yng nghyffiniau Abersoch. Ychwanegodd fod yr ymgeiswyr yn creu swyddi ar gyfer y gymuned leol a bod hyn o bwysigrwydd.

Awgrymodd y cynghorydd y byddai'n fanteisiol codi uchder y ffens ar y terfyn rhwng y Ganolfan Arddio a'r maes carafannau lle mae unedau gan nifer o'r gwrthwynebwyr.

'Roedd y gwrthwynebwyr yn falch o ddallt y byddai'r drwydded yn atodol i'r bwyd ac awgrymwyd ganddynt y byddai cau am 10pm yn dderbyniol. Mynegodd yr ymgeiswyr eu parodrwydd i gytuno â hyn.

Wrth ystyried y cais mynegodd y Cadeirydd ei werthfawrogiad o safbwynt y cydweithio a'r ddealltwriaeth rhwng yr ymgeiswyr a'r rhai oedd yn gwrthwynebu'r cais ar y cychwyn .

**PENDERFYNWYD :**

i) **Caniatáu Trwydded Eiddo i'r Garden Centre, Tŷ Mawr, Abersoch i werthu alcohol gyda bwyd rhwng 09.00 awr a 22.00 gyda'r eiddo i gau am 23.00**

ii) **Bod nifer y bobl yn eistedd wrth y byrddau o fewn yr adran drwyddedig yn cael ei gyfyngu i 20**

iii) **Bod asesiad risg tân yn cael ei gynnal yn gyson.**

iv) **Bod yr Is-bwyllgor yn annog yr ymgeiswyr i gael cyngor arbenigwyr ynglŷn â'r posibilrwydd o godi uchder y ffens ar derfyn yr eiddo**